# CA3 - GWEITHGAREDDAU

## ABCh – Gwneud yn fawr o'n hardal

Mae Roger Davies yn perthyn i Dylan Thomas, ac yn byw yn ardal Llansteffan, lle'r arferai Dylan dreulio ei wyliau gyda'i berthnasau.

Gwyliwch y cyfweliad â **Roger Davies** yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

https://www.youtube.com/watch?v=mQCtVut_e-0

1. Yn ôl Roger Davies, ym mha ardal y treuliodd Dylan Thomas fwy o amser: Talacharn, neu ardal Llanybri, Llangynog a Llan-gain? Pam roedd hyn?

2. Pam mae hi'n anodd datblygu cysylltiad Dylan Thomas ag ardal Llanybri ac ati?

3. Beth mae Cymdeithas Dwristiaeth Llansteffan yn gobeithio ei wneud o ran y cysylltiad â Dylan Thomas?

4. Beth yw cysylltiad Dylan â Llansteffan?

**Pwyntiau trafod:**

1. Ystyriwch eich ardal eich hun. A oes unrhyw gysylltiadau posibl ag unrhyw un o'r canlynol:

   - person o bwys llenyddol/hanesyddol/gwleidyddol neu fabolgampwr/wraig
   - digwyddiad hanesyddol?

   Os nad ydych chi'n siŵr, edrychwch ar y cofnod am eich pentref/tref/dinas yn *Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig.*

2. Ydy'r cysylltiad/au hyn yn cael ei ddefnyddio/eu defnyddio'n barod i ddenu twristiaeth i'r ardal? Sut?

3. Os nad yw hyn yn digwydd, sut gellir datblygu rhywbeth i ddenu twristiaeth i'r ardal?

4. Mae rhai pobl yn gwrthwynebu datblygu twristiaeth yn eu hardal. Pam mae hyn?

**Gweithgaredd ysgrifennu:**

- Lluniwch **daflen** i ddenu twristiaid i'ch ardal chi, gan ddefnyddio person o bwys neu ddigwyddiad hanesyddol fel y prif atyniad.

# Cysylltiadau â'r Fframwaith Llythrennedd:

## Llafaredd

**Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**
**Siarad**

### Blwyddyn 7

- cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

### Blwyddyn 8

- cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

### Blwyddyn 9

- cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau
- defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun

## Gwrando

### Blwyddyn 7

- ymateb yn bwyllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys

### Blwyddyn 8

- ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol

### Blwyddyn 9

- ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt

## Cydweithio a thrafod

### Blwyddyn 7

- gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau
- cyrraedd consensws a chytuno ar gamau gweithredu mewn grwpiau

### Blwyddyn 8

- trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf

### Blwyddyn 9

- nodi bod amrywiaeth o ddewisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp